

## THOMAS, DAVID ('Dafydd Ddu Eryri'; 1759-1822), llenor a bardd

**Enw:** David Thomas

**Ffugenw:** Dafydd Ddu Eryri

**Dyddiad geni:** 1759

**Dyddiad marw:** 1822

**Rhiant:** Mary Griffith (née Humphreys)

**Rhiant:** Thomas Griffith

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** llenor a bardd

**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

**Awduron:** Griffith Thomas Roberts, Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yn Ebrill 1759, mab Thomas a Mary Griffith, Penybont y Waun Fawr. Gwehydd o bandy Glynllifon oedd THOMAS GRIFFITH, ac yr oedd yn gynghorwr gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, ac ef a'i fab John, a anwyd 8 Rhagfyr 1748, a ofalai am eu hachos yn y Waun Fawr. Âi'r ddau dros y mynydd i Lanberis hefyd i gadw seiat yn y Llwyn-celyn. (Daeth JOHN THOMAS yn bregethwr gyda'r Methodistiaid, ac wedi iddo symud i fyw i'r Merddyn Coch ar dir Llwyn-celyn ef a ofalai am eu hachos yno. Yr oedd yn bregethwr cymeradwy a cheir ei hanes yn pregethu gyda [Siarl Marc](#) a Thomas Evans y Waun Fawr yn y cyfarfod misol cyntaf yn Llanberis yn 1777. Bu farw yn 1831 yn 82 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Llanberis.)

Cafodd 'Dafydd Ddu' wyth mis o ysgol gyda [John Morgan](#), curad Llanberis. Yno y cyfarfu ag [Abraham Williams](#) o'r Cwmglas, a thrwyddo daeth i wybod am farddoniaeth Gymraeg. Cafodd fenthyg llyfrau Cymraeg gan [Abraham Williams](#) a thrwyddo ef y cafodd wybod am [Ddafydd Elis](#) ('Person Criceth') a fuasai yn gurad yn Llanberis o flaen [John Morgan](#). Cafodd fenthyg copïau [Dafydd Elis](#) o waith yr henfeirdd a gwnaeth yntau gasgliad o gywyddau ac englynion allan o'r llawysgrifau a'u rhoi yn y llyfr llawysgrif - 'Golwg ar Parnassus a Helicon.' Ar ôl gadael yr ysgol gweithiai waith gwehydd yn y Waun Fawr ac âi i Gaernarfon i weled '[Robin Ddu yr ail o Fôn](#)' (Robert Hughes), a ddaethai yno wedi colli ei iechyd yn Llundain. Clywodd ganddo am gyfarfodydd y beirdd yn y tafarnau yn Llundain ac yn niwedd y gaeaf 1783-4 canodd 'Dafydd Ddu' gân, 'Gwahoddiad i'r Prydyddion ddyfod i'r Betws bach Noswyl Fair' ar y mesur a elwir Bel Eil March, a daeth '[Hywel Eryri](#),' William Bifan, 'Sion Caeronwy,' Siân Parri, ac eraill yno, a dyna gychwyn cyfarfodydd y beirdd yn Arfon lle câi 'Dafydd' gyfle i ddysgu rheolau barddoniaeth i'w 'gywion,' fel y gelwir hwynt.

Ar 14 Gorffennaf 1787 rhoes heibio waith gwehydd a dechrau cadw ysgol yn Llanddeiniolen. Aethai yno i ddechrau i weled '[Twm o'r Nant](#)' a'i gyfeillion yn chwarae anterliwd, ac anogwyd ef y pryd hwnnw i roi cynnig ar gadw ysgol, a bu'n dilyn y gorchwyl hwnnw yn Llanddeiniolen, Betws Garmon, Llanystumdwy, Pentraeth, y Waun Fawr, Llanrug, Llanberis, a'r Dolydd Byrion, Llandwrog. O 1807 i 1810 bu'n brysur yn casglu'r defnyddiau ar gyfer ei lyfr, *Corff y Gainc*, yn teithio i Ddolgellau i wyllo ei argraffu, ac yna'n crwydro i Lerpwl a mannau eraill i'w werthu.

Yr oedd 'Dafydd Ddu' a [William Williams](#), Llandegai, yn aelodau gohebol o Gymdeithas y Gwyneddigion a hwy a weithredai

dros y gymdeithas honno yng Ngogledd Cymru am gyfnod. Iddynt hwy ill dau yr anfonid eu llyfrau, fel *Gwaith Dafydd ab Gwilym*, 1789, i'w gwerthu; atynt hwy yr anfonid am ddefnyddiau ar gyfer *The Myvyrian Archaiology of Wales*<sup>[4]</sup>, ac ar ôl i 'Dafydd' ennill eu 'tlws' ddwywaith am yr awdl yn Llanerchymedd a Llanrwst gofynnai'r Gwyneddigion iddo drefnu eu heisteddfodau, megis eisteddfod Penmorfa yn 1795, ac arno ef y disgynnodd llawer o'r gwaith trefnu a beirniadu'r farddoniaeth yn eisteddfod Caernarfon, 1821. Ni chytunai â syniadau rhai o w r Llundain am y Chwyldro yn Ffrainc ac ni dderbynai ddulliau rhyfedd [William Owen Pughe](#) o ysgrifennu Cymraeg. Cytunai â hwynt y byddai'n ' fuddiol rhoi ychwaneg o ryddid i feirdd Cymreig,' ond y dylid 'cymryd yn gynnil rhag torri adwy i rimynwyr anurddasol ddyfod i mewn i wladwriaeth awen.' Yr oedd ef yn sicrach awdurdod ar reolau barddoniaeth gaeth na neb yn ei gyfnod, a dywaid [Syr John Morris-Jones](#) mai trefniant 'Dafydd Ddu' wedi ei newid gan '[Bardd Nantglyn](#)' (Robert Davies), ac wedi ei ddiwygio, naill ai gan 'Dafydd Ddu' ei hunan neu rywun arall, oedd prif sail yr hyn a sgrifennwyd ar y gynghanedd yn y 19eg ganrif.

Ychydig o'i waith a apeliai at ddarllenwyr heddiw. Gellid nodi ei englynion beddargraff a'i gywydd ar agoriad eisteddfod Caernarfon yn 1821 fel yr enghreifftiau gorau o'i farddoniaeth gaeth, a 'Fy Annwyl Fam fy Hunan,' cyfieithiad o'r gân Saesneg 'My Mother,' fel enghraifft o gyfieithiad a barhaodd yn boblogaidd wedi i'r gân wreiddiol gael ei llwyr anghofio.

Treuliodd y flwyddyn olaf o'i oes yn y Fron Olau, Llanrug, ond crwydrai i weled cyfeillion yn yr ardaloedd cylchynol. Wrth ddychwelyd o Fangor o un o'r teithiau hynny syrthiodd wrth groesi afon Cegin wrth ymyl Bach Riffri a chafwyd ef wedi boddi ar 30 Mawrth 1822. Claddwyd ef ym mynwent Llanfihangel yn Llanrug a rhoes ei gyfeillion gofodail ar ei fedd.

Heblaw *Corff y Gainc* a gyhoeddodd yn 1810 ymddangosodd llyfryn arall, *Arddwriaeth Ymarferol*, cyfieithiad o ddau draethawd Saesneg, o'i waith yn 1815. Yr oedd ganddo ran hefyd mewn golygu y cyfnodolyn *Greal neu Eurgrawn sef Trysorfa Gwybodaeth*, argraffwyd ac ar werth gan [T. Roberts](#), Caernarfon, 1800, gyda '[Ieuan Lley](#)n' a hefyd gyda'r [Parch. P. Bailey Williams](#), Llanrug, mewn golygu *Trysorfa Gwybodaeth neu Eurgrawn Cymraeg*, Caernarfon, 1807. Y mae 17 o'i ysgrifau yn y *Cylchgrawn Cymraeg*, 1793-4, ac yn eu plith ei 'Traethawd ar ddim,' y cynnig cyntaf i ysgrifennu ysgrif yn Gymraeg ar ddull y 'light essay' Saesneg, a cheir englynion a thraethawd o'i waith yn *Geirgrawn* (Holywell, 1796).

Brawd iddo oedd

### HUMPHREY THOMAS (1745 - 1805), ysgolfeistr

Bedyddiwyd ef 9 Mehefin 1745, yn eglwys Llanbeblig, Sir Gaernarfon. Bu'n swyddog yn nh cyllid Caernarfon, ac yn ysgolfeistr yn Llanddeiniolen, Sir Gaernarfon. Ar ei farw, daeth ei gasgliad o lawysgrifau i feddiant ei frawd. Ceir gramadeg neu eirlyfr Cymraeg ganddo ef a'i frawd yn N.L.W. MS. 21, yn dwyn y teitl 'Arweinydd i'r Gymraeg.' Bwriadwyd cyhoeddi'r gwaith hwn. Bu farw 22 Rhagfyr 1805, a chladdwyd ef ym Metws Garmon, Sir Gaernarfon, ddydd Nadolig.

## Awduron

Griffith Thomas Roberts

Griffith Milwyn Griffiths

## Ffynonellau

Am John Thomas a Thomas Griffith gweler *Methodistiaeth Cymru* (1851–6), ii, 209

*Y Drysorfa*, Awst 1831

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd (Trefriw 1820)*, 111

*Y Gwyllydydd*, Tachwedd 1822, 92

*Llawysgrif Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 72

Am D. Thomas: *Corph y Gaingc, neu Ddifyrwch Teuluaidd sef holl gyfansoddiadau barddonawl y diweddar Dafydd Thomas (Dafydd Ddu o Eryri) ynghyd a'i ddetholion o waith beirdd ereill hefyd, buchedd-draith yr awdur* (1810; 1834) (arg. 1834), ix-xxviii

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *'Adgof uwch Anghof.'* *Llythyrau lluaws o Brif Enwogion Cymru* (1883), 11-76

Robert Hughes, William Hughes (gol.), *Hunan-gofiant ynghyda phregethau a barddoniaeth y diweddar Barch. Robert Hughes, (Robin Goch), Uwchlaw'rffynnon: wedi eu casglu ganddo ef ei hun, ac wedi eu trefni a than olygiaeth ei fab* (Pwllheli 1893), 15

*The Cambro-Briton*, 1822; iii, 427

*Additional Manuscripts in the British Museum* 14884, 14993, 15015, 15024, 15027, 15029, 15030

*NLW MSS* 17, 18, 109, 119, 346, 1640, 344, 171, 322, 325

*Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor* Gwynedd 5, 9, 11, 12, 14, 15, 16, 19, 24

J. H. Davies, *Catalogue of Additional Manuscripts in the National Library of Wales*

*Cofrestri Esgobaeth Bangor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

*Corph y Gaingc, neu Ddifyrwch Teuluaidd sef holl gyfansoddiadau barddonawl y diweddar Dafydd Thomas (Dafydd Ddu o Eryri) ynghyd a'i ddetholion o waith beirdd ereill hefyd, buchedd-draith yr awdur (1810; 1834)*

*Y Brython, 1860, 165*

David Thomas, *[Awdlau ar destynau Cymdeithas y Gwyneddigion: i'r eisteddfodau yn B.A. 1789, 1790, 1791; sef, ystyriaeth ar oes dyn, rhyddid a gwirionedd](#)* (Llundain 1791)

## Darllen Pellach

Cynan Evans-Jones, *[Tad Beirdd Eryri: Dafydd Tomos \('Dafydd Ddu Eryri'\) 1759-1822, Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion](#)*, 1969, Rhan I, tt. 7-23

Erthygl Wicipedia: [David Thomas](#)

## Delweddau

LIGC: [Mr. David Thomas, Eryri](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [14646439](#)

Wikidata: [Q18535548](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

